

Cymru sydd yn grymuso,
yn gwella ac yn cyfoethogi
bywydau drwy lenyddiaeth.

Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2022-2025



Cynnwys

Gair gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd.....	3
Crynodeb Gweithredol	4
Ein Strategaeth.....	5
Y newid y byddwn yn ei greu.....	5
Asesu Angen	7
Ein Hymrwymiad i'r Gymraeg	8
Ein Nodau	9
Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb.....	9
Iechyd a Llesiant.....	10
Yr Argyfwng Hinsawdd.....	11
Cyfranogi	12
Datblygu Awduron	14
Diwylliant Llenyddol Cymru.....	15
Pobl a Chymunedau	18
Awduron.....	18
Darllenwyr, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr creadigol.....	18
Plant a Phobl Ifanc	19
Cymunedau a Grwpiau'r Filtir Sgwâr.....	19
Cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli	20
Partneriaid	20
Gwerthoedd	22
Egwyddorion Cyflawni	22
Blaenoriaethau Gweithredol: Bod yn Wydn	23
Arian.....	25

Gair gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd

Yn *Resources of Hope* (1989) mae'r athronydd a'r beirniad o Gymro, y digymar Raymond Williams, yn dweud *"to be truly radical is to make hope possible, rather than despair convincing."* Mae Llenyddiaeth Cymru wastad wedi ceisio sicrhau bod ein ffyrdd o weithio a'n huchelgeisiau yn radical, ac rydyn ni wedi ymrwymo i weddnewid ein diwylliant llenyddol mewn ffordd bellgyrhaeddol.

Fel y gwelwch yn y Cynllun Strategol hwn, mae gennyn ni'r gallu i wynebu heriau'r byd heddiw, ac rydyn ni'n barod i roi prosiectau ar waith sy'n gadael neb ar ôl. A ninnau'n sefydliad hyblyg sy'n croesawu newid, byddwn ni'n sicrhau bod ein strategaeth yn esblygu ochr yn ochr â'r sector prysur rydyn ni'n rhan ohono. Gallwn ni wedyn ddatblygu cyfleoedd newydd i'n hawduron ac ateb anghenion ein darllenwyr a'n cynulleidfaoedd. Yn garreg sylfaen i'n gwaith yw'n hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant amrywiol a byrlymus Cymru, ac mae ein hamcanion yn cyd-fynd â Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydyn ni am i'n holl awduron a hwyluswyr llenyddol allu sbarduno newid. Yn benodol, byddwn ni'n grymuso'r rheini sydd wedi bod heb lais yn y gorffennol i ysgrifennu eu dyfodol eu hunain; byddan nhw'n gweithio gyda ni i ddatblygu a chreu diwylliant llenyddol sy'n ddrych o fywydau a phrofiadau ein cenedl amrywiol ac amlieithog. Mae llenyddiaeth yn bwysig i'n heconomi. Mae awduron yn cyfrannu at amrywiaeth eang o ddiwydiannau creadigol, gan gynnwys byd y ffilm, gemau cyfrifiadurol, y theatr a'r byd cyhoeddi, a byddan nhw'n hollbwysig yn hyfywedd economaidd Cymru. Mae llenyddiaeth yn faes chwarae ac yn ddrws dychymyg i blant a phobl ifanc, ac rydyn ni am iddyn nhw lywio'r llenyddiaeth honno fel bod eu lleisiau'n siarad â chenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol.

Yn ein gwaith rydym yn defnyddio llenyddiaeth i helpu gwella a chyfoethogi bywydau, a gallwn fesur effaith y gwaith hwn. Fel ffurf ar gelfyddyd, gall llenyddiaeth – ac yn wir, fe ddylai - fod yn amlycach yn ein bywydau bob dydd. Rydyn ni am iddi ein ein tywys ni drwy'r broses adfer gan wella ein llesiant a chreu dyfodol tecach a gwyrddach i Gymru. Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno'r strwythur a'r dulliau y byddwn ni'n eu defnyddio i gyflawni'r uchelgeisiau hyn, ynghyd â'r partneriaethau y byddwn ni'n eu datblygu i sicrhau bod ein gwaith yn gynaliadwy a bod iddo waddol. Mae'n hollbwysig casglu'r wybodaeth a'r dystiolaeth iawn er mwyn datblygu prosiectau a fydd yn galluogi mwy o bobl i gyfranogi ac i fwynhau llenyddiaeth. Mae hyn yn ein galluogi ni i ddeall yn well sut y gall gyfoethogi a gweddnewid bywydau, ac i ddadlau dros lenyddiaeth mewn nifer o sectorau a meysydd polisi, gan gynnwys iechyd a llesiant, addysg, twristiaeth ac adfywio lleol.

Mae'r straeon y byddwn ni'n eu darllen, yn eu clywed, ac yn eu dweud wrth ein gilydd yn ein helpu ni i ddehongli cymhlethdodau ein bywydau ac mae'r creadigrwydd sydd ynghlwm wrth ddarllen ac ysgrifennu'n gallu goleuo pob gwyll, gan wneud gobraith yn bosibl.

Dr Cathryn Charnell-White, Cadeirydd
Natalie Jerome, Dirprwy Gadeirydd

Crynodeb Gweithredol

Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Yn y Cynllun Strategol newydd hwn ar gyfer 2022-2025, rydyn ni'n cyflwyno uchelgais i greu Cymru lle mae llenyddiaeth yn cynrychioli ein lleisiau amrywiol, yn gefn i'n llesiant, ac yn codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd.

Bydd ein holl weithgareddau wedi'u seilio ar ymchwil, gan ein galluogi i gyrraedd y bobl y mae arnyn nhw ein hangen ni fwyaf, a hynny drwy brosiectau sy'n gwir ateb eu hanghenion. Bydd ein gwaith gwerthuso yn gefn i ddiwylliant sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn ein sector, gan ein helpu i dargedu'r gefnogaeth rydyn ni'n ei rhoi'n fwy effeithiol fyth.

Rydyn ni wedi dewis blaenoriaethu a chanolbwyntio ar **dair blaenoriaeth**, a'r rheiny'n ceisio ysgogi newid mewn cymdeithas drwy lenyddiaeth:

- **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** – Datblygu sector sy'n cefnogi mynediad teg i bawb drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol a rhoi llwyfan i leisiau amrywiol
- **Iechyd a Llesiant** – Cefnogi llesiant unigolion a chymunedau, gan ddefnyddio llenyddiaeth fel grym iachaol i gryfhau gwasanaethau
- **Argyfwng Hinsawdd** – Defnyddio creadigrwydd i addysgu, archwilio a herio, gan wella ymwybyddiaeth pobl o'r argyfwng hinsawdd ac ysgogi newid er gwell

Byddwn ni'n cyflawni'r blaenoriaethau hyn drwy **dri math o weithgarwch**, a dyma sut y byddwn ni'n creu cymdeithas lenyddol fyrlymus:

- **Cyfranogi** – Galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau a chymryd rhan mewn llenyddiaeth, gan ysbrydoli cymunedau a'i gwneud hi'n haws i bobl ymwneud â'n gwaith
- **Datblygu Awduron** – Datblygu a chefnogi gweithlu medrus sy'n cynnig gweledigaeth yn y sector llenyddol, drwy ddarparu cyfleoedd, cynyddu potensial, a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg
- **Diwylliant Llenyddol Cymru** – Dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n fwy perthnasol ac yn agored i gynulleidfa ehangach.

Ni yw cwmni llenyddiaeth cenedlaethol Cymru. Rydyn ni'n cydnabod bod cyfrifoldeb arnon ni felly i arddel y safonau uchaf o ran llywodraethu gweithredol, ynghyd â dangos ein gwerthoedd yn yr holl waith rydyn ni'n ei wneud ac yn ei gefnogi.

Ein Strategaeth

Y newid y byddwn yn ei greu

Nod ein prosiectau yw gwneud gwahaniaeth. Drwy lenyddiaeth, rydyn ni'n helpu i lywio a gwella ein cymdeithas, ein heconomi, a'n diwylliant. Rydyn ni'n gwneud hyn gan fod gan lenyddiaeth, yn ei holl amrywiaeth, y grym i gysylltu cymunedau â'i gilydd a rhoi cysur, ysbrydoliaeth a gobaith i'r bobl y mae angen hynny fwyaf arnyn nhw.

Ein gweledigaeth yw Cymru sy'n grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Ar sail ein dealltwriaeth ni o rym llenyddiaeth i weddnewid a gwella bywydau, rydyn ni wedi dewis nodau sy'n adlewyrchu ein huchelgais a'n dyheadau i Gymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd â Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau bod popeth a wnawn yn helpu i gyflawni un neu ragor o'r nodau hyn.

Ein Nodau

Blaenoriaethau

Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb: Cymru Fwy Cyfartal

Datblygu sector sy'n cefnogi mynediad teg i bawb drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol a rhoi llwyfan i leisiau amrywiol.

Iechyd a Llesiant: Cymru Iachach

Cefnogi llesiant unigolion a chymunedau, gan ddefnyddio potensial iachaol llenyddiaeth i gryfhau gwasanaethau

Yr Argyfwng Hinsawdd: Cymru Gydnherth

Defnyddio creadigrwydd i addysgu, archwilio a herio, gan wella gwybodaeth pobl am yr argyfwng hinsawdd ac ysgogi newid sy'n para

Gweithgaredd

Cyfranogi: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau mynd ati i gyfranogi mewn llenyddiaeth, gan ysbrydoli cymunedau a'i gwneud hi'n haws i bobl ymwneud â'n gwaith

Datblygu Awduron: Cymru Lewyrchus

Datblygu a chefnogi gweithlu medrus sy'n cynnig gweledigaeth yn y sector llenyddol, drwy ddarparu cyfleoedd, cynyddu potensial, a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg

Diwylliant Llenyddol Cymru: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang

Dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n berthnasol ac yn agored i gynulleidfa ehangach.

Sylfaen


Y Gymraeg: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Hyrwyddo'r Gymraeg a dathlu ein diwylliant Cymreig unigryw, amrywiol, drwy feithrin sîn lenyddol fyrlymus a chyfleoedd i archwilio drwy lenyddiaeth

Gweithredu ar wybodaeth

Bydd casglu gwybodaeth am ein cynulleidfaoedd, ein rhaglenni a'n llwyddiant yn arwain at gylch parhaus lle byddwn ni'n dysgu o bob prosiect rydyn ni'n ei ddarparu, a bydd ein dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn sail i'n cynlluniau gweithredu.

Cylch gwybodaeth prosiectau:



Byddwn ni'n mesur ein cynnydd drwy **Gynllun Effaith** cadarn sy'n rhoi'r fframwaith i fonitro a gwerthuso ein gwaith, ynghyd â rhoi gwybod i bobl amdano.

Bydd gan bob prosiect rydyn ni'n ei ddarparu **Ddangosyddion Nodau** sy'n ein galluogi ni i ganfod a chyfathrebu effaith strategol ein gwaith mewn manylder. Byddwn ni'n casglu, yn dadansoddi ac yn adrodd am y data hwn bedair gwaith y flwyddyn drwy ein **Hadroddiadau Effaith**.

Asesu Angen

O ble y cawn ni ein gwybodaeth?

Ers ei sefydlu, mae Llenyddiaeth Cymru wedi gweithio'n galed i gynrychioli anghenion Cymru. Gyda chefnogaeth Rhaglen Wytnewch Cyngor Celfyddydau Cymru, rydyn ni wedi gweddnewid ein prosesau mewnol ac wedi edrych ar enghreifftiau yn y wlad hon a thramor i greu rhaglen gefnogaeth i'r sector sy'n darparu ar gyfer pobl Cymru ac yn destun edmygedd ledled y byd.

Rydyn ni wedi mynd ati'n gyson i gasglu data ac ymwneud â chynlluniau ymchwil. Mae ymchwil yn hollbwysig er mwyn deall y ffyrdd gorau inni gefnogi Cymru sy'n grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Mae'n egluro ble y dylen ni wario ein harian, a sut y dylen ni rannu ein harbenigedd, er mwyn cael yr effaith fwyaf.

Aethon ni ati i gomisiynu prosiect ymchwil **Cyflwr y Genedl** yn 2021, ac mae hwnnw wedi rhoi gwell dealltwriaeth inni o berthynas y wlad ag ysgrifennu a darllen. Er enghraifft, dangosodd y canfyddiadau fod 68% o boblogaeth Cymru wedi darllen llyfr yn y flwyddyn ddiwethaf. Ffuglen clawr papur (a'r genres trosedd a chyffro yn enwedig) yw'r dewisiadau mwyaf poblogaidd. Gwelson ni hefyd mai cadw dyddiadur yw'r ffurf fwyaf poblogaidd ar ysgrifennu creadigol. Roedd 18% o boblogaeth Cymru'n cadw dyddiadur (a 53% o'r rheini'n ysgrifennu ynddo unwaith yr wythnos neu'n amlach).

Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i gynnal ymchwil gyda Phrifysgol Aberystwyth erbyn Haf 2022 i ddeall ffioedd teg ar gyfer gwaith llenyddol, gan ein galluogi ni i gefnogi awduron a sicrhau eu bod nhw'n cael eu talu'n iawn.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n parhau i ddefnyddio ymchwil i fireinio ein gweithgareddau, gan sicrhau bod y rheini'n gwbl addas i'n cynulleidfaoedd, ein hawduron a'n darllenwyr. Bydd ein cynnig yn cyd-fynd ag anghenion y genedl.

Nid ni'n unig fydd yn elwa o'r ymchwil hwn. Byddwn ni'n rhannu ein canfyddiadau'n eang ac yn cefnogi'r holl sector i gyflwyno newidiadau yn y manau ble mae angen y rheini. Mae'n gyfrifoldeb arnon ni i ganfod bylchau lle gallen ni flaenoriaethu ein chefnogaeth fel sector. Drwy ddarparu data ystyrlon a threiddgar, a thrwy gynlluniau enghreifftiol ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio, byddwn ni'n hwyluso newid.

Ein Hymrwymiad i'r Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, pryd bynnag a sut bynnag y down i'w hadnabod. Bydd unrhyw un sy'n ymwneud â Llenyddiaeth Cymru yn elwa o'r Gymraeg - boed yn rhugl, yn gallu defnyddio ambell air ac ymadrodd, neu'n gwbl newydd i'r iaith ac yn chwilfrydig i wybod mwy. Fel pob iaith gyfoes a chreadigol, mae'r Gymraeg yn newid ac yn ymaddasu wrth i genedlaethau newydd ei chofleidio. Ar hyd y blynyddoedd mae amrywiaeth o acenion a thafodieithoedd wedi cyfoethogi ein llên: o Dewi Emrys i Megan Angharad Hunter, o'r Wenwyseg i Wenglish, mae geiriau a chyweiriau'r Gymraeg yn canu yn ein clustiau ac yn chwyrlio yn ein dychymyg.

Rhan gwbl ganolog o'n cenhadaeth ni yw creu Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a'n llenyddiaeth yn cynrychioli ein lleisiau amrywiol. Er mwyn gwireddu hyn byddwn yn cydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth yn y sector llenyddol, byddwn yn ysbrydoli unigolion i weithredu i atal yr argyfwng hinsawdd, a byddwn yn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau. Gwnawn hyn oll drwy brism yr iaith Gymraeg.

Mae ein **Cynllun Datblygu'r Iaith Gymraeg** yn adnodd pwysig sy'n dyst i'n hymrwymiad i'r iaith Gymraeg. Mae'n adnabod meysydd lle gallwn wella, yn ogystal ag adnabod arfer da y gellid ei rannu ag eraill. Nid elfen ddidoleddig, ar wahân ar ein gwaith ni yw'r Gymraeg. Yn hytrach mae'n sail ein holl weithgaredd a'n blaenoriaethau, a cherrynt sy'n llywio ein gwerthoedd. Bydd y Gymraeg yn sylfaen gadarn wrth inni fynd i'r afael â'n saith gôl (t. 6), ac wrth ymgysylltu at Gymru sy'n fwy cyfartal, sy'n iachach, ac sy'n fwy cydnerth. Yn ein tro, byddwn yn cyfrannu at ddiwylliant Gymraeg a Chymreig bywiog sy'n ymfalchïo yn yr iaith ac yn ei rhannu â'r byd. Mae iaith a thir Cymru yn gyfrodedd tynn â'i gilydd ac, yn yr un modd, mae'r Gymraeg yn llinyn arian yng ngweledigaeth Llenyddiaeth Cymru o Gymru sy'n grymuso, yn gwella, ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Llenyddiaeth Cymru a'r Byd

Mae Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad sy'n edrych tua'r gorwelion, ac rydym am ddathlu llenyddiaeth, diwylliant, a ieithoedd Cymru gyda'r byd. Rydym hefyd yn awyddus i rannu ymarfer da a dysgu gan sefydliadau eraill sy'n rhannu ein gwerthoedd a sydd yn darparu gweithgaredd arloesol ym maes datblygu llenyddiaeth. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn cryfhau ein perthynas gyda'r cyrff llenyddol strategol yn y pedwar gwlad, sef yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr, a Chymru, gan gefnogi ein cydweithwyr ar draws y sector a meithrin rhagor o gyfleoedd i roi llwyfan i'n hawduron.

Gan weithio gyda Celfyddydau Cymru Dramor, Llywodraeth Cymru, a'n chwaer sefydliadau yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac Iwerddon, byddwn yn parhau i amlygu a dathlu barddoniaeth ac amryfal ffurfiau llenyddiaeth yn ein holl ieithoedd – gyda Cymru a'r Gymraeg yn arwain y ffordd – fel rhan o Ddegawd Ieithoedd Cynhenid UNESCO 2022-2032 sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol siaradwyr ieithoedd cynhenid.

Ein Blaenoriaethau

Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb

Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb: Cymru Fwy Cyfartal

Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb – Datblygu sector sy'n cefnogi mynediad teg i bawb drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol a rhoi llwyfan i leisiau amrywiol

Ein prif nod yw cynrychioli amrywiaeth Cymru yn well yn ei llenyddiaeth. Byddwn ni'n parhau i roi pwyslais yn ei gwaith ar bobl sy'n cael eu tangynrychioli ac sydd wedi wynebu hiliaeth, abledd (sef dangos ffafriaeth tuag at unigolion heb anabledau), gwahaniaethu ac anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol.

Ar gyfer yr unigolion a'r cymunedau hyn, byddwn ni'n cynyddu ymhellach nifer y cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu'n creadigol ac yn broffesiynol, ac yn chwilio am leisiau talentog newydd er mwyn rhoi llwyfan a chefnogaeth iddynt. Pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, wrth inni gynllunio cyfleoedd a gweithgareddau, byddwn ni'n gweithio'n agos gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o anghydraddoldeb ac sydd wedi eu tangynrychioli.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn ni'n cefnogi cyfleoedd:

Can weithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r filltir sgwâr, cymunedau, ymgyrchwyr ac elusennau, byddwn ni'n datblygu ac yn darparu prosiectau sy'n cael effeithiau cadarnhaol, a rheiny'n fesuradwy. Byddwn ni hefyd yn cefnogi ac yn cynorthwyo'r rheini sydd ar flaen y gad wrth ddarparu cynlluniau arloesol i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Byddwn ni'n ymchwilio:

Byddwn ni'n canolbwyntio ar gasglu gwell tystiolaeth i ganfod ble mae'r rhwystrau mwyaf yn dal i fodoli o ran ymwneud ag ysgrifennu creadigol a gweithgareddau llenyddol eraill, a ble y gallwn ni hyrwyddo unigolion a sefydliadau sy'n ceisio ysgogi newid.

Byddwn ni'n creu ecosystem lenyddol gynhwysol:

Nod hirdymor yw creu gwell ecosystem lle bydd lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli'n ysbrydoli pobl eraill, ac rydyn ni wedi ymrwymo i gyflwyno newid systemig. Ar hyn o bryd, efallai nad yw pobl yn eu gweld eu hunain yn y llenyddiaeth maen nhw'n ei darllen a'i chlywed. Dylai pobl allu darllen a mwynhau gweithiau llenyddol gan awduron sydd â phrofiadau bywyd tebyg, mewn llyfrau cyhoeddedig, mewn gwaith sy'n cael ei berfformio, ac ymhlith hyrwyddwyr cymunedol, arweinwyr gweithdai, tiwtoriaid ysgrifennu creadigol, a beirdd cenedlaethol.

Iechyd a Llesiant

Iechyd a Llesiant: Cymru Iachach

Cefnogi llesiant unigolion a chymunedau, gan ddefnyddio potensial iachaol llenyddiaeth i gryfhau gwasanaethau

Dros nos, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddirfawr ar y ffyrdd y mae pobl yn gallu ymwneud â'i gilydd. Mae'r newidiadau hyn eisoes wedi gwaethygu'r lefelau uchel o ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd y mae llawer o bobl yn y Deyrnas Unedig yn eu profi. Mae mwy o unigrwydd yn ei dro'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant pobl, gan arwain at fwy o bwysau ar y sector iechyd a'r economi. Bydd hyn yn gryn her yn y cyfnod adfer ar ôl Covid.

Mae profion clinigol wedi dangos bod darllen ac ysgrifennu creadigol yn fuddiol i'n llesiant, yn gorfforol ac yn feddyliol ill dau. Mae llenyddiaeth yn adnodd economaidd grymus y gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael mewn ffordd gadarnhaol â rhai o'r problemau cymdeithasol hyn, a gall gyfrannu at wella bywydau pobl Cymru.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn ni'n gweithio tuag at greu Cymru iachach:

Drwy ddarparu prosiectau cyfranogi mewn amrywiaeth eang o gymunedau, ysgolion a gwasanaethau gofal iechyd, byddwn ni'n helpu i greu Cymru iachach ac yn defnyddio grym llenyddiaeth i fynd i'r afael â phroblemau iechyd a llesiant, gan gynnwys gorbryder, iselder, unigrwydd ac ynysigrwydd.

Byddwn ni'n mesur effaith llenyddiaeth:

Byddwn ni'n gosod canlyniadau mesuradwy ar gyfer ein prosiectau, sef gwella sgiliau, hyder a gallu cyfranogwyr i fynd ati i gymryd rhan yn eu cymunedau, dod o hyd i waith, neu o bosibl sicrhau gwell deilliannau dysgu yn yr ysgol.

Byddwn ni'n meithrin perthnasau llwyddiannus:

Byddwn ni'n ehangu ac yn datblygu ein partneriaethau yn y sector iechyd, gan gynnwys ein partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru, i sicrhau bod ein prosiectau'n cael effaith er gwell. Law yn llaw â'r sector celfyddydau yn ehangach, byddwn ni'n edrych ar ffyrdd o wreiddio llenyddiaeth mewn rhaglenni presgripsiynu cymdeithasol fel ffurf ar driniaethau ataliol, iachaol a lliniarol, ac yn gweithio i gyflwyno prosiectau peilot llwyddiannus ar raddfa ehangach drwy Gymru gyfan.

Yr Argyfwng Hinsawdd

Yr Argyfwng Hinsawdd: Cymru Gydnerth

Defnyddio creadigrwydd i addysgu, archwilio a herio, gan wella gwybodaeth pobl am yr argyfwng hinsawdd ac ysgogi newid sy'n para

Mae llenyddiaeth Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn nhirwedd y wlad. O brysurdeb Tiger Bay i gopaon uchaf Eryri, mae ein tir yn fwy na chefnidir. Mae'n gymeriad ynddo'i hun. Mae beirdd wedi cyfansoddi wrth weithio ar y tir ers canrifoedd maith, ac mae enwau llefydd yn tarddu o hen chwedlau a straeon.

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn ei bod hi'n argyfwng hinsawdd, a bod hynny'n cael effaith drychinebus ar ein byd ac ar fywydau pobl. Y bobl dlotaf sy'n ei chael hi waethaf. Rydyn ni'n awyddus i weithredu lle gallwn ni, i rwystro'r argyfwng rhag gwaethygu, ac i godi ymwybyddiaeth drwy ein gwaith. Ni fydd modd i'n gwaith ni gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol heb inni gydnabod y dinistr sy'n digwydd i'r amgylchedd a'r argyfwng hinsawdd ym mhopeth a wnawn. Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid a'n cynulleidfaoedd gyda'r nod o greu Cymru sy'n wyrddach, yn decach ac yn fwy ffyniannus.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn ni'n hybu galwadau am newid:

Byddwn ni'n cefnogi'r rhwydwaith sy'n tyfu yng Nghymru o feirdd cenedlaethol ac unigolion llenyddol ysbrydoledig eraill sy'n defnyddio'u lleisiau i alw am newid. Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, World Wildlife Foundation a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu rhaglenni cenedlaethol sy'n cael effaith fawr.

Byddwn ni'n gwneud yn lle dweud:

Mae ein **Cynllun Gweithredu Amgylcheddol** yn cyflwyno camau gweithredu llym i gyfyngu ar ein hól-troed carbon, ac mae'n rhoi manylion am sut y gall rhai o'n prosiectau creadigol fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn thematig. Er y byddwn ni'n ymwybodol o dlodi digidol ac o bobl sy'n llai cyfforddus yn defnyddio technoleg, byddwn ni hefyd yn lleihau ôl-troed carbon digwyddiadau llenyddol drwy gynnal digwyddiadau rhithwir neu hybrid.

Byddwn ni'n annog lleoliaeth:

Byddwn ni'n rhoi pwyslais o'r newydd ar weithio yn lleol a byddwn ni'n helpu i ddatblygu cymunedau gwydn drwy gefnogi digwyddiadau llenyddol lleol a phrosiectau llenyddiaeth er iechyd a llesiant sy'n gwneud gwir wahaniaeth. Drwy dreialu prosiectau cymunedol newydd ac arloesol, byddwn ni'n dal i gyfrannu at ddod o hyd i atebion sy'n dangos nad yw dychwelyd i normalrwydd ar ôl COVID-19 yn golygu dychwelyd i wneud pethau yn yr un ffordd ag y bydden ni'n eu gwneud nhw yn y cyfnod cyn y pandemig.

Mathau o weithgarwch

Mae ein gwaith wedi'i strwythuro o amgylch y canlynol: Cyfranogi, Datblygu Awduron, a Diwylliant Llenyddol Cymru. Drwy'r meysydd gwaith hyn, sydd wedi hen ennill eu plwyf, byddwn ni'n ysbrydoli newid cymdeithasol, gan greu cymdeithas lenyddol fyrlymus ar yr un pryd.

Cyfranogi

Cyfranogi: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau mynd ati i gyfranogi mewn llenyddiaeth, gan ysbrydoli cymunedau a'i gwneud hi'n haws i bobl ymwneud â'n gwaith

Gall cymryd rhan mewn llenyddiaeth olygu sawl peth. Gall olygu darllen neu wrando ar straeon, ysgrifennu'n greadigol, cyfrannu at weithdai, neu fwynhau ymweliadau gan awduron mewn ysgolion, cymunedau a gwyliau. Mae'n rhan ganolog o ddiwylliant Cymru, a chyn pandemig COVID-19 roedd dros 150 o grwpiau llenyddol lleol yng Nghymru yn cynnal gweithdai a digwyddiadau yn eu cymunedau ym mhob cwr o'r wlad.

Rydyn ni'n credu bod gan bawb yr hawl i gymryd rhan mewn llenyddiaeth ac i'w mwynhau yn ei holl ffurfiau, a byddwn ni'n gweithio'n galed i'w gwneud hi'n haws i bobl ledled y wlad allu gwneud hynny.

Sut y byddwn ni'n cyflawni?

Cymorth ariannol:

Bydd ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau yn cynnig cyfraniadau ariannol tuag at ddigwyddiadau llenyddol, gan ganolbwyntio ar gefnogi gweithgareddau sydd naill ai'n newydd neu'n targedu awduron a chynulleidfaoedd sy'n cael eu tangynrychioli. Byddwn ni'n annog trefnwyr i weithio gan ddilyn ein tair blaenoriaeth.

Gweithio mewn partneriaeth:

Byddwn ni'n ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol drwy weithio gyda phartneriaid, yn aml o'r tu allan i'r sector celfyddydau, i gefnogi a datblygu prosiectau milltir sgwâr mewn cymunedau ac ysgolion. Y nod fydd canolbwyntio ar y grwpiau a fydd yn elwa fwyaf o'r ymyriadau.

Creu cymuned o hwyluswyr medrus:

Byddwn ni'n buddsoddi ymhellach mewn cyfleoedd hyfforddi i awduron i roi'r sgiliau angenrheidiol iddyn nhw weithio gyda grwpiau ac unigolion, gan gynnwys pobl sydd ag anghenion cymhleth a heriol. O gartrefi gofal i garchardai, o ysgolion i gaffis, o neuaddau pentref i ganolfannau siopau, byddwn ni'n cefnogi pobl sy'n cyfansoddi barddoniaeth, yn

cofnodi atgofion, yn creu comics, yn adrodd straeon yn ddigidol, neu'n rhannu profiadau bywyd mewn ffordd greadigol, a'r cyfan wedi'i hwyluso gan awduron medrus sydd â phrofiadau perthnasol.

Enghraifft: Gwella Iechyd a Llesiant drwy Gyfranogi

Bydd y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau yn canolbwyntio ar gefnogi digwyddiadau llenyddol sy'n gwella iechyd a llesiant unigolion a chymunedau, ac yn enwedig y rheini sy'n wynebu unigrwydd ac ynysigrwydd.

Byddwn ni'n rhoi cyfleoedd i bobl fynegi a rhoi llais i'w hemosiynau drwy eiriau a chysylltu â'i gilydd drwy rannu straeon a syniadau, fel ein rhaglen Darn wrth Ddarn, sy'n rhan o brosiect Bridging the Gap mewn partneriaeth â Mind Casnewydd.

Datblygu Awduron

Datblygu Awduron: Cymru Lewyrchus

Datblygu a chefnogi gweithlu medrus sy'n cynnig gweledigaeth yn y sector llenyddol, drwy ddarparu cyfleoedd, cynyddu potensial, a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg

Mae gan bawb stori i'w hadrodd. Gall taith unigolyn yng nghwmni llenyddiaeth ddechrau'n ifanc iawn, o lapio'n glyd i wrando ar stori amser gwely i greu llyfr lluniau yn y dosbarth gydag athro neu awdur gwadd. Bydd pobl eraill yn dod i fwynhau llenyddiaeth yn hŷn yn eu bywydau, drwy ymuno â chwrs ysgrifennu rhithwir neu grŵp yn y llyfrgell leol, cyn mynd yn eu blaenau i gyhoeddi llyfr a allai wedyn gyrraedd rhestr fer gwobr o bwys. Ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid a chyllidwyr, byddwn ni'n sicrhau bod cerrig camu ar gael i bawb sy'n awyddus i ysgrifennu, mynegi'u hunain, a gwneud cynnydd.

Sut y byddwn ni'n cyflawni?

Creu cyfleoedd a chyfeirio pobl atyn nhw:

Byddwn ni'n sicrhau bod awduron o bob oed, cefndir, lleoliad a gallu'n cael cyfleoedd i wella'u sgiliau a datblygu'u huchelgeisiau llenyddol eu hunain. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cefnogi awduron yn y tymor hir ac yn eu tywys at y camau nesaf yn eu datblygiad.

Mentora egin awduron:

Drwy gynnig cyfleoedd a chysiau cysgodi a mentora, byddwn ni'n galluogi egin awduron i feithrin eu crefft a dysgu gan awduron mwy profiadol. Byddwn ni hefyd yn annog ac yn helpu cymheiriaid i gefnogi'i gilydd a rhwydweithio â'i gilydd.

Cyngor am y diwydiant:

I'r rheini sy'n barod i rannu'u gwaith, byddwn ni'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad er mwyn iddyn nhw ddod i ddeall y sector llenyddiaeth. Byddwn ni'n rhoi cymorth i bobl ddod o hyd i lwybrau cyhoeddi, ymwneud â rhwydweithiau llenyddol, digwyddiadau a pherfformiadau cyhoeddus, creu enw iddyn nhw'u hunain drwy gystadlaethau, datblygu'n broffesiynol, a mwy.

Dathlu talent:

Mae awduron Cymru yn llysgenhadon sy'n adrodd straeon Cymru i'r byd. Byddwn ni'n dathlu ein hawduron gorau ac yn rhoi llwyfan i'w talentau ysgrifennu gartref a'r tu hwnt.

Enghraifft: Gwella Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb drwy ddatblygu awduron

Bydd ein rhaglen flaengar, *Cynrychioli Cymru: Datblygu Awduron* yn parhau i esblygu. Bob blwyddyn, byddwn ni'n buddsoddi mewn carfan o awduron sy'n arddel nodwedd benodol sy'n cael ei thangynrychioli (ac yn aml pobl sy'n arddel mwy nag un nodwedd o'r fath). Byddwn ni'n darparu rhaglen ddatblygu unigryw ar eu cyfer, er mwyn gwireddu dyheadau a breuddwydion yr awduron. Yn debyg i'r hyn a ddigwyddodd yn y blynyddoedd diwethaf, byddwn yn cynnig rhaglen sydd wedi ei seilio ar anghenion a diddordebau'r grŵp, gyda'r grŵp hynny yn llywio'r cynnwys. Yn ogystal â chyd-greu gyda'r awduron, byddwn yn cydweithio gyda sefydliadau partner ac awduron eraill er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni ystod o gefnogaeth datblygiad proffesiynol yn ogystal ag ysgrifennu creadigol. Bydd hyn yn creu ffrwd o dalentau Cymreig unigryw, amrywiol i gynrychioli ein sîn lenyddol gartref ac yn rhyngwladol. Ni fydd ein hymwneud â'r awduron yn dod i ben ar ddiwedd y prosiect blwyddyn o hyd. Byddwn ni'n parhau i gefnogi awduron *Cynrychioli Cymru* am flynyddoedd ac yn eu hyrwyddo fel llysgenhadon Llenyddiaeth Cymru a llenyddiaeth o Gymru.

Diwylliant Llenyddol Cymru

Diwylliant Llenyddol Cymru: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang

Dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n berthnasol ac yn agored i gynulleidfa ehangach.

Mae gwerth economaidd a chymdeithasol anferth i ddiwylliant llenyddol Cymru, ac mae'n ein galluogi i roi Cymru ar lwyfan y byd. Rydyn ni'n hyrwyddo awduron Cymru ymhlith cynulleidfaoedd gartref a thramor, yn dathlu ein treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, ac yn palu'r ffordd i wneud lle i leisiau'r dyfodol. Bydd y gwaith rydyn ni'n ei wneud drwy Gyfranogu a Datblygu Awduron yn cyfrannu at dwf ein diwylliant llenyddol.

Sut y byddwn ni'n cyflawni?

Darparu llwyfannau:

Byddwn ni'n mynd ati i chwilio am gyfleoedd i roi llwyfan i dalentau llenyddol Cymru, er mwyn iddyn nhw fod yn llysgenhadon i lenyddiaeth, diwylliant a gwerthoedd Cymru, yn ogystal ag i'r Gymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys swyddi amlwg y beirdd cenedlaethol (Bardd Plant Cymru, Children's Laureate Wales a Bardd Cenedlaethol Cymru), ac ehangu effaith Gwobr Llyfr y Flwyddyn.

Cyflwyno Cymru i'r byd:

Yn ogystal â chefnogi mwy o gymunedau Cymru i ymwneud â'r diwylliant llenyddol sydd ar garreg eu drws, rydyn ni'n credu bod ein lenyddiaeth yn haeddu cael ei dathlu yn rhyngwladol. Byddwn ni'n parhau i ddathlu treftadaeth lenyddol gyfoethog Cymru, ac ar yr un pryd yn ceisio creu diwylliant yn y dyfodol sy'n cynrychioli amrywiaeth holl bobl y wlad.

Hyrwyddo sector llenyddol amrywiol:

Mae ein gwaith i gynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth lleisiau yn rhoi amlygrwydd i straeon o wahanol safbwyntiau, cymunedau a chefnidiroedd. O atgofion cenedlaeth Windrush yng Nghasnewydd, i drafferthion teulu a fudodd o Tsieina i gefn gwlad Powys – bydd ein hunaniaeth fel gwlad yn ei holl weddau a'i holl ieithoedd yn cael ei chynrychioli a'i dathlu'n gynyddol drwy'r lenyddiaeth y byddwn ni'n ei hyrwyddo.

Enghraifft: Rhoi sylw i'r Argyfwng Hinsawdd drwy ein diwylliant llenyddol

Rydyn ni'n ymwybodol na ddylen ni greu gormod o ôl-troed carbon wrth gyflwyno llenyddiaeth Cymru i'r genedl ac yn rhyngwladol. Bydd ein gweithgaredd digidol, Gwlad y Chwedlau, yn ysbrydoli pobl i ymweld â Chymru rithwir sy'n llawn cysylltiadau llenyddol a diwylliannol. Mae ein hawduron yn darlunio hud a lledrith ein tirluniau a'n treftadaeth mewn geiriau, yn rhoi cyfle i bobl ymweld â'n gwlad ni yn eu dychymyg.

Pobl a Chymunedau

Elfen bwysig o'n gwaith yw galluogi awduron i ddatblygu eu potensial i'w heithaf. Mae awduron yn rhan hollbwysig o ecosystem lenyddol iach. Rydyn ni hefyd yn gweld potensial ehangach llenyddiaeth wrth rymuso, gwella a chyfoethogi bywydau pawb yng Nghymru. O blant i ymgyrchwyr hinsawdd, o feirdd i weinidogion y llywodraeth, rydyn ni i gyd yn ceisio ymwneud â'n gilydd drwy eiriau.

Gyda phwy rydyn ni'n gweithio?

Awduron

Rydyn ni'n diffinio awduron fel pawb sy'n ysgrifennu, er mwynhad neu i ennill bywoliaeth, a hynny ym mhob cam ar eu siwrneiau llenyddol. Nhw yw ein gweithlu a'n hasedau mwyaf gwerthfawr. Maen nhw'n llysgenhadon i'n blaenoriaethau a'n gwerthoedd. Byddwn ni'n parchu, yn hyrwyddo ac yn cefnogi awduron Cymru, gan addo ffioedd teg iddyn nhw. Byddwn ni'n eu cefnogi mewn ffyrdd ystyrlon, yn eu helpu i ddeall y sector llenyddiaeth, ac yn datlu eu llwyddiannau.

Byddwn ni'n ysbrydoli ac yn cynnig cyfleoedd i awduron arbrofi â'u crefft, mentro, a datblygu rhagoriaeth yn eu gwaith, a thrwy hynny feithrin enw iddyn nhw'u hunain. Byddwn ni'n annog holl awduron Cymru i rwydweithio yn eang, herio a hyrwyddo'i gilydd, a rhannu cyfleoedd ac arferion da.

Byddwn ni'n osgoi labelu ein hawduron yn ddianghenraid ar sail eu profiadau neu'u harbenigedd yn y gorffennol. Byddwn ni'n datlu'r ffaith bod ein hawduron yn cynrychioli ystod eang o oedrannau; byddan nhw'n ysgrifennu neu'n perfformio yn Gymraeg, yn Saesneg, ac yn ieithoedd eraill Cymru; a byddan nhw'n cynrychioli cymunedau amrywiol Cymru o ran cefndiroedd a phrofiadau bywyd.

Darllenwyr, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr creadigol

Mae darllen llenyddiaeth a gwranddo ar lenyddiaeth yn weithredoedd creadigol sy'n galw am ddefnyddio'r dychymyg. Pobl sy'n dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol yw darllenwyr a chynulleidfaoedd creadigol. Gall olygu darllen llyfr gartref, cymryd rhan mewn gweithdy yn y gymuned neu mewn ysgol, neu hyd yn oed fwynhau sgwrs gan awdur mewn gŵyl lenyddol.

Drwy ymwneud â llenyddiaeth, bydd darllenwyr, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr creadigol yn teimlo'u bod nhw'n perthyn, ond byddan nhw'n dysgu am y byd o'u hamgylch ar yr un pryd. Byddan nhw'n meithrin y sgiliau a'r hyder i fynegi emosiynau drwy ysgrifennu'n creadigol, ac i ddefnyddio'u lleisiau i drafod a newid pethau.

Plant a Phobl Ifanc

Gall cyflwyno hud a lledrith straeon a geiriau yn gynnar ym mywyd rhywun olygu y bydd yr unigolyn hwnnw'n mwynhau llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol gydol oes. Gan weithio yn y system addysg – o'r blynyddoedd cynnar i'r brifysgol – yn ogystal ag y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, byddwn ni'n ceisio ysgogi diddordeb a chwilfrydedd plant a phobl ifanc ym maes ysgrifennu creadigol a darllen.

Mae dau o'n prif brosiectau, Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales, yn eirioli dros hawliau plant a phobl ifanc yn ogystal â'u cefnogi i ymateb yn greadigol i faterion cymdeithasol sy'n bwysig iddyn nhw, fel yr argyfwng hinsawdd ac iechyd meddwl.

Mae angen pobl i'w hefelychu ar genedlaethau'r dyfodol – mae angen i blant eu gweld eu hunain yn yr awduron sy'n ymweld â'u hysgolion ac yn y cymeriadau maen nhw'n darllen amdany'n nhw mewn llyfrau. Mae 33.5% o blant yn ysgolion cynradd y Deyrnas Unedig o gefndir lleiafrif ethnig. Eto i gyd, dim ond 10% o'r llyfrau plant a gyhoeddwyd yn 2019 a oedd yn cynnwys cymeriadau o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig. Gan ddilyn argymhellion adroddiad terfynol Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd, dan arweiniad yr Athro Charlotte Williams, byddwn ni'n hyfforddi mwy o hwyluswyr llenyddol i gynnal gweithdai mewn ysgolion. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector addysg a'r byd cyhoeddi, gan gynnwys sefydliadau cenedlaethol o bwys fel y Mudiad Meithrin, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg llyfrau ac adnoddau amrywiol i blant a phobl ifanc.

Bydd llenyddiaeth hefyd yn adnodd grymus i hybu iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Bydd prosiectau darllen ac ysgrifennu creadigol ar y cyd, a'r rheini'n hybu llesiant, yn helpu pobl ifanc i brosesu eu pryderon a mynegi'u gobeithion at y dyfodol.

Cymunedau a Grwpiau'r Filltir Sgwâr

Bu perthynas ers tro byd yng Nghymru rhwng cymunedau a geiriau – o eisteddfodau lleol i ddigwyddiadau sy'n coffáu cewri llenyddol fel Roald Dahl, Hedd Wyn, Kate Roberts a Raymond Williams. Bydd digwyddiadau llenyddol mewn pentrefi a threfi yn gallu dod â chenedlaethau ynghyd, yn lleddfu unigrwydd, ac yn creu cymunedau mwy cysylltiedig.

Ynghyd â bod yn rhan o'r cymunedau sydd ar garreg ein drws yn Llanystumdwy a Bae Caerdydd, byddwn ni'n cefnogi cymunedau ym mhob rhan o Gymru drwy ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau. Wrth weithio mewn cymunedau, byddwn ni'n rhoi lle canolog i'r argyfwng hinsawdd, manteision llenyddiaeth i iechyd a llesiant, a chynrychiolaeth a chydarddoldeb. Bydd hynny'n sicrhau bod ein gwerthoedd yn amlwg mewn digwyddiadau cymunedol er mwyn helpu i ddatblygu Cymru lle mae'i diwylliant llenyddol yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.

Byddwn ni'n gwrando'n astud ar gymunedau llenyddol y filltir sgwâr yng Nghymru, ac yn ymgynghori â nhw er mwyn datblygu ein gweithgareddau a'n strategaeth. Byddwn ni'n

defnyddio ein braint fel cwmni cenedlaethol mewn ffordd gyfrifol, drwy rannu arbenigedd ac adnoddau â grwpiau lleol, a'u grymuso nhw i wasanaethu'r cymunedau maen nhw'n eu hadnabod yn well na ni.

Cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli

Yng Nghymru, mae anghydraddoldebau sylweddol dal i fodoli yn y cyfleoedd sydd ar gael i ymwneud â diwylliant a llenyddiaeth a chyfranogi ynddyn nhw. I geisio sicrhau cydraddoldeb a gwell cynrychiolaeth yn niwylliant a chymunedau llenyddol Cymru, ac i sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar y mannau lle bydd yn cael yr effaith fwyaf, byddwn ni'n blaenoriaethu gweithio gyda'r canlynol:

- **pobl o liw (Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig)**
- **pobl sy'n arddel anabledd neu sydd â salwch hirdymor**
- **unigolion o gefndiroedd incwm isel**

Byddwn ni hefyd yn gweithio gydag awduron o'r gymuned LGBTQ+, y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid, ac unigolion sy'n ynysig oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu, eu hymrwymadau personol, a'u lleoliad daearyddol. Byddwn ni'n gwrandao ar ymgyrchoedd fel Black Lives Matter a #weshallnotberemoved, yn dysgu ganddyn nhw, ac yn cyflwyno'u gwerthoedd yn ein gwaith ni. Rydym yn cefnogi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru a'r nod o greu Cymru Wrth-hiliol.

Rydyn ni'n cydnabod bod nifer o bobl yn arddel nodweddion gwarchoddedig niferus (fel mae'r rheini wedi'u diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010) a byddwn ni'n gweithio mewn ffordd groestoriadol ar draws ein gwaith, gan gofio bod pobl yn aml yn wynebu rhwystrau niferus a chymhleth wrth geisio ymwneud â'r celfyddydau.

Partneriaid

Mae gweithio gyda phartneriaid yn hollbwysig er mwyn i Llenyddiaeth Cymru gael effaith ystyrion. Gan weithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein gwerthoedd ac sy'n cyd-fynd â'n nodau, byddwn ni'n cyd-greu ac yn cydweithio ar brosiectau a strategaethau, gan sicrhau'r effaith fwyaf bosibl drwy gronni ein hadnoddau, y gwersi rydyn ni'n eu dysgu, a'n harbenigeddau. Yn ein gwaith ar y cyd byddwn yn dilyn egwyddorion cynaliadwy'r Pum Dull o Weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Daw ein partneriaid o amrywiaeth o sectorau gwahanol, gan gynnwys y sector celfyddydau ehangach, yn ogystal ag o'r sector addysg, y sector iechyd, y sector chwaraeon, y sector cymdeithasol, a'r sector amgylcheddol. Mae'r partneriaid yn amrywio o ran natur. Yn eu plith mae adrannau'r llywodraeth (ar lefel leol a chenedlaethol), clybiau pêl-droed, cyrff cenedlaethol ac elusennau'r trydydd sector, ynghyd â chydweithfeydd a grwpiau cymunedol y filltir sgwâr.

Byddwn ni'n ymgynghori â phartneriaid yn rheolaidd ac yn gwrandao ar gyngor arbenigol am sut i gysylltu a gweithio'n sensitif gyda grwpiau penodol o gyfranogwyr – yn enwedig y rheini sydd ar ymylon cymdeithas a/neu'n agored i niwed.

Mae ein gwaith partneriaeth yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol penodol drwy lenyddiaeth.. Gyda Llenyddiaeth Cymru yn cyfrannu'n helaeth yn y flwyddyn gyntaf mewn unrhyw bartneriaeth, ein nod yw creu cynlluniau enghreifftiol ar y cyd, y gellir wedyn eu rhannu a'u cyflwyno'n ehangach ledled Cymru.

Arweinyddiaeth yn y Sector

Gwerthoedd

Mae gennyn ni gyfres glir o werthoedd sy'n sail i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n disgwyl i'n holl bartneriaid a rhanddeiliaid, cyfranogwyr creadigol, a chynulleidfaoedd eu parchu. Bydd y gwerthoedd hyn yn helpu i ddatblygu Cymru lle bydd llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau, a byddan nhw'n hollbwysig wrth inni gyflawni ein nodau.

Rydyn ni'n rhoi gwerth ar y canlynol:

- Gwaith sy'n cefnogi grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli
- Gwaith sy'n golygu cydweithio a chydweithredu
- Gwaith sy'n arloesol ac yn uchelgeisiol
- Gwaith sy'n parchu'r Gymraeg
- Gwaith sy'n hyrwyddo cynhwysiant a hygyrchedd
- Gwaith ac iddo waddol
- Gwaith sy'n eirioli dros rym llenyddiaeth

Egwyddorion Cyflawni

Rydyn ni'n gweithio'n galed i greu newid cadarnhaol a chynaliadwy i Gymru, ac rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu gweithgareddau o safon uchel.

Rydyn ni'n dilyn cyfres gyson a chydlynol o Egwyddorion Cyflawni sy'n ein helpu ni i wneud penderfyniadau am ein gweithgareddau a sut rydyn ni'n darparu'r rheini. Mae'r egwyddorion hyn yn bwysig i gynyddu effaith ein gwaith, a byddwn ni'n dod o hyd i bartneriaid sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion hyn. Mae gwaith ymchwil ArtWorks Cymru ar egwyddorion ansawdd wedi dylanwadu arnyn nhw, yn ogystal â'n hymwneud â chynllun Ysgoloriaethau Creadigol Jerwood.

Rydyn ni'n bwriadu gwneud gwaith:

- Sy'n cael ei arwain gan effaith, ac sy'n cyd-fynd â'n Nodau Effaith
- Sy'n rhoi pwyslais ar fod yn wrth-hiliol
- Sy'n cyrraedd ein safonau ar gyfer darparu'n gynhwysol
- Sy'n cyd-fynd â Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru, ac sy'n talu artistiaid a gweithwyr llawrydd yn deg
- Sy'n osgoi gorgyffwrdd â darpariaeth bresennol neu ddarpariaeth sydd ar y gweill gan bobl neu sefydliadau eraill
- Sy'n golygu gweithio mewn partneriaeth ar draws nifer o sectorau i ehangu cyrhaeddiad llenyddiaeth
- Sy'n cefnogi nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru

Ein Gwaddol

Fel y cwmni cenedlaethol ar gyfer llenyddiaeth, mae gennyn ni drosolwg strategol unigryw, ac rydyn ni'n rhoi pwyslais ar ddatblygu a chefnogi'r sector, yn hytrach na dim ond darparu prosiectau a rhaglennu digwyddiadau.

Mae gan Gymru nifer o sefydliadau yn y maes llenyddiaeth a chyhoeddi, a'r rheini'n amrywio'n fawr o ran eu maint a'u harbenigedd – o gyhoeddwyr i wyliau i ddigwyddiadau yn y filltir sgwâr – ac rydyn ni'n falch o fod yn gweithio yn y sector bywiog hwn. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod ein dyletswydd fel un o wyth cwmni cenedlaethol dynodedig Cyngor Celfyddydau Cymru, ac yn cydnabod hefyd ein cyfrifoldeb i gynnig arweinyddiaeth a chefnogaeth i eraill yn y sector lle bydd angen hynny, gan rannu'r gwersi rydyn ni'n eu dysgu drwy ymgynghori ag awduron a chynulleidfaoedd llenyddol Cymru.

Byddwn ni'n defnyddio ein hadnoddau i roi syniadau, strwythurau a phrosiectau ar brawf, ac yn ehangu'r rhain fel eu bod o fudd i fwy o bobl na'r rheini y gallen ni'u cyrraedd ein hunain yn unig. Rhwng 2022 a 2025 byddwn ni'n mynd ati i ddod o hyd i ffyrdd o drosglwyddo perchnogaeth i awduron, cymunedau a sefydliadau eraill er mwyn creu Cymru lle mae llenyddiaeth yn cynrychioli ein lleisiau amrywiol, yn cefnogi ein llesiant, ac yn codi ymwybyddiaeth am yr argyfwng hinsawdd.

Blaenoriaethau Gweithredol: Bod yn Wydn

Mae'r gallu i gyflawni ein Cynllun Strategol yn dibynnu ar ein gallu i weithredu mewn ffordd ddynamig ac effeithiol, gan dargedu pethau penodol.

Rhwng 2019 a 2022, rydyn ni wedi ailwampio ein systemau, gan gynnwys cyflwyno fframwaith monitro a gwerthuso newydd, cyflwyno prosesau rheoli cyllidebau newydd, a pharhau i ddatblygu'r gofrestr risg.

Mae'r camau hyn wedi gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwaith yn arw; fodd bynnag, mae angen parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau bod Llenyddiaeth Cymru yn aros yn sefydlog mewn byd sy'n esblygu drwy'r amser. Rydyn ni wedi dynodi naw maes i ganolbwyntio arnyn nhw rhwng 2022 a 2025:

Effaith ac Eirioli:

Mae angen inni gyfathrebu effaith ein gweithgareddau'n well. Dylai fod stori i bob ystadegyn, ac ystadegyn i bob stori, i sicrhau ein bod ni'n gallu hyrwyddo a chyfathrebu'r manteision sydd ar gael i bawb drwy gymryd rhan mewn llenyddiaeth.

Deall yr Angen:

Mae angen inni ddeall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag darllen neu gymryd rhan mewn digwyddiadau llenyddol. Rydyn ni'n credu bod llenyddiaeth yn bwysig, ac rydyn ni am i bawb allu ymwneud â llenyddiaeth. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn ni'n canolbwyntio ar grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, ac yn gweithio'n galed i ddeall eu profiadau bywyd.

Byddwn ni'n defnyddio'r ymchwil hwnnw i ddylanwadu ar ein rhaglenni ac i eirioli dros newid.

Partneriaethau a Gwaddol:

Mae angen inni rannu ein cynlluniau enghreifftiol. Nid Llenyddiaeth Cymru sy'n berchen ar lenyddiaeth Cymru. Ond mae gennyn ni ddyletswydd i arwain a dangos beth rydyn ni wedi'i ddarganfod a'i ddysgu, a hynny er budd y sector.

Adnoddau Dynol:

Mae angen inni feithrin tîm cynhwysol a medrus. Byddwn ni'n cyflawni hyn drwy sicrhau bod gan ein tîm amrywiaeth gwirioneddol o sgiliau a phrofiad, a byddwn ni'n blaenoriaethu gofalu am eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd – Materion Gweithredol:

Mae angen inni ddiogelu Tŷ Newydd at y dyfodol. Gallwn ni wneud hyn drwy uwchraddio'r cyfleusterau a thrwy gynyddu ein capasiti i sicrhau bod y cynigion creadigol a masnachol yn gallu cynnwys ac apelio at fwy fyth o bobl, gan fod yn ganolog i Ddiwylliant Llenyddol Cymru.

Yr Argyfwng Hinsawdd:

Mae angen inni greu ac ysgogi newid radical. Byddwn ni'n ystyried effeithiau amgylcheddol ein holl ddulliau gweithredu; o'r pethau syml (e.e. cyfathrebu, argraffu) i'r pethau cymhleth (e.e. cefnogi iechyd meddwl ac eirioli), gyda'r nod o fod mor gynaliadwy â phosibl.

Ymgynghori â'r Sector a Gwaith Hwyluso:

Mae angen inni sicrhau bod ein tîm yn deall lleisiau'r sector, ac yn hybu'r rheini i'r genedl. Ni yw'r sefydliad i awduron a darllenwyr ledled Cymru, ac mae angen inni sicrhau ein bod ni, a phawb sy'n ymwneud â llenyddiaeth yng Nghymru, yn gwrando'n astud ac yn ymateb i'n hawduron, ein darllenwyr a'n cynulleidfaoedd creadigol.

Datblygu Capasiti:

Mae angen inni sicrhau ein bod ni'n barod at y dyfodol. Byddwn ni'n buddsoddi yn ein capasiti i godi arian, ymchwilio, ac arloesi'n ddigidol fel ein bod ni'n barod at beth bynnag a ddaw yn y dyfodol.



Codi Arian:

Mae angen inni gyflwyno mwy o amrywiaeth i'n ffrydiau incwm i leihau'r ddibyniaeth ar un math o gyllid yn unig. Gallwn wneud hyn drwy gryfhau ein gallu i greu cronfeydd anghyfyngedig o ffynonellau amrywiol.

Arian

Mae Llenyddiaeth Cymru yn codi arian o nifer o ffynonellau, er mwyn cyflawni ein gwaith. Fel elusen, ac fel sefydliad sy'n cael arian cyhoeddus, rydyn ni am fod yn dryloyw ynghylch o ble y daw ein harian, a sut y caiff yr arian hwnnw ei wario.

Mae Cynllun Strategol 2022-2025 yn dibynnu ar y model ariannol canlynol (rhagolygon mis Awst 2021):



Cyfarwyddwyr

Cathryn Charnell-White (Cadeirydd)
Natalie Jerome (Dirprwy Gadeirydd)
Craig Austin
Eric Ngalle Charles
Jacob Dafydd Ellis
Annie Finlayson
Elizabeth George
John O'Shea
Delyth Roberts
Cathryn Summerhayes
Owain Taylor-Shaw
Christina Thatcher

Prif Weithredwr

Lleucu Siencyn

Ein Staff

029 2047 2266
post@llynyddiaethcymru.org
llynyddiaethcymru.org
@LlenCymru

Gyda diolch i:**Ein Cyllidwyr:**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Llywodraeth Cymru
Y Loteri Genedlaethol

Ein Ffrindiau Beirniadol:

Sara Beer
Kittie Belltree
Darren Chetty
Sadia Pineda Hameed
Mererid Hopwood
Matthew Jarvis
Deborah Llewelyn
Farrah Serroukh
Kayley Sydenham
Marvin Thompson
Iestyn Tyne
Huw L Williams

Hefyd:

Rhys Iorwerth
Gerri Moriarty
Eluned Parrott